



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cofrestrfa Protocol Kyoto) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021
DYDDIAD	26 Chwefror 2021
GAN	Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

SO30C – Hysbysiad ynghylch Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 nad ydynt wedi'u gosod ger bron Senedd Cymru.

Rheoliadau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Cofrestrfa Protocol Kyoto) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio'r canlynol:
Deddfwriaeth yr UE

Rheoliad y Comisiwn (UE) rhif 389/2013

Deddfwriaeth Ddomestig

Rheoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) a'r Rhestr Allyriadau Genedlaethol 2005

Deddf yr Amgylchedd 1995

Rheoliadau Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2012

Unrhyw effaith y gall yr offeryn statudol ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio deddfwriaeth ddomestig sydd gan fwyaf o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru a phwerau gweithredol Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag allyriadau nwyon tŷ gwydr, fel a bennwyd mewn deddfwriaeth

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chofrestrfa Protocol Kyoto ("PK") y DU a phrosiectau PK, i sicrhau y gall weithredu yn y DU. Mae PK

yn brotocol i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (“yr UNFCCC”), sy’n gytuniad rhyngwladol ar y newid yn yr hinsawdd. Mae PK yn nodi ymrwymïadau gwahanol wledydd, gan gynnwys Aelod-wledydd yr UE a’r DU, i leihau’u hallyriadau carbon.

Mae’r OS a’u Memorandwm Esboniadol, sy’n nodi effeithiau pob diwygiad, ar gael yma:

<https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2021/9780348220551>

Pam y cafodd cydsyniad ei roi

Mae cydsyniad wedi’i roi i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn mewn cysylltiad â Chymru ac ar ei rhan er sicrhau effeithlonrwydd a hwylustod. Bydd y diwygiadau hyn yn sicrhau bod y llyfr statud yn parhau’n ymarferol ar ôl i’r DU ymadael â’r UE trwy ddiwygio neu ddirymu darpariaethau a fyddai’n ei wneud yn amhosibl ei weithredu fel arall.